# Cyfarfod Cyswllt Cynghorau Tref a Chymuned

**Nos Iau, 19 Tachwedd 2015**
**7.00 yh**

Siambr y Cyngor
Swyddfeydd y Cyngor
Llangefni
LL77 7TW

# Town and Community Councils Liaison Meeting

**Thursday, 19 November 2015**
**7.00 pm**

Council Chamber
Council Offices
Llangefni
LL77 7TW

## Rhaglen

**1. Cadarnhau Cofnodion**

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Gorffennaf 2015 yn amgaeedig.

**2. Cwrdd â'r Heriau: Ymgynghoriad Cyllideb 2016/17**

2.1 Diweddariad ar y cyfarfod o'r Grwp Rhanddeiliaid Cynghorau Tref a Chymuned a gynhaliwyd ar 21 Hydref 2015.

2.2 - Ystyried cynigion cychwynnol y Pwyllgor Gwaith.

Adroddiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 9 Tachwedd 2015 – gweler y ddolen isod.

## Agenda

**1. Confirmation of Minutes**

Minutes of the meeting held on 9 July 2015 enclosed.

**2. Meeting the Challenges: Budget Consultation 2016/17**

2.1 – Update on the meeting of the Town and Community Council Stakeholder Group held on 21 October 2015.

2.2 - To consider the Executive's initial budget proposals.

Report submitted to the Executive on 9 November 2015 – see link below:

http://democratiaeth.ynysmon.gov.uk/documents/s9815/Cyllideb%20Refeniw%20Drafft%20201617.pdf?LLL=1

http://democracy.anglesey.gov.uk/documents/s9815/Draft%20Revenue%20Budget%202016-17.pdf?LLL=0

Bydd y ddogfen ymgynghori ar gael ar wefan y Cyngor o Ddydd Llun, 16 Tachwedd – dolen i ddilyn.

The consultation document will be available on the Council's website from Monday, 16 November – link to follow.

**3 – Amrywiaeth mewn Democratiaeth – Rhaglen Mentora Llywodraeth Cymru**

Cyflwyniad gan y Cynghorydd Carwyn Jones, Pencampwr Amrywiaeth y Cyngor.

**3 – Diversity in Democracy – Welsh Government Mentoring Programme**

Presentation by Councillor Carwyn Jones, the Council's Diversity Champion.

**4. Fforwm Sgriwtini**

Rhaglenni gwaith y ddau Bwyllgor Sgriwtini.

**4. Scrutiny Forum**

Work programmes of the two Scrutiny Committees.

**5. Unrhyw fater arall**

**5. Any other business**

Cofnodion Cyfarfod Fforwm Cyswllt Cynghorau Tref a Chymuned
Dydd Iau, 9 Gorffennaf 2015 – 7pm

Siambr y Cyngor, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni

| **Yn bresennol** | **Yn cynrychioli Cynghorau Tref a Chymuned** |
|---|---|
| Gwynn Jones | Amlwch |
| Stan Zalot | Biwmares |
| Gwen Evans Jones | Biwmares |
| Llinos G Jones | Llangefni |
| Margaret A Thomas | Llangefni |
| Janice M Davies | Llangefni |
| Delyth Owen | Llanfaelog |
| Richard Rowlands | Llanfaelog |
| Bill Rowlands | Trearddur |
| Alan Benson | Trearddur |
| Margaret Price | Trewalchmai |
| Edna Jones | Trewalchmai |
| Enid Mummery | Bro Rhosyr |
| Gwenda Owen | Y Fali |
| Gordon Browne | Y Fali |
| Mavis Swaine-Williams | Y Fali |
| Anna Jones | Tref Alaw |
| Einion Parry Williams | Llanfihangelysceifiog |
| J E Lewis | Llangristiolus |

**Yn cynrychioli Cyngor Sir Ynys Môn**

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd Ieuan Williams | Arweinydd Cyngor Sir Ynys Môn (Cadeirydd) |
| Y Cynghorydd Derlwyn Hughes | Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio |
| Y Cynghorydd G O Jones | Is-gadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol |
| Dr Gwynne Jones | Prif Weithredwr |
| Gwen Carrington | Cyfarwyddwr Cymuned |
| J Huw Jones | Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd |
| Anwen Davies | Rheolwr Sgriwtini Corfforaethol Dros Dro |
| Geraint Roberts | Swyddog Sgriwtini |

**Hefyd yn bresennol:-**

| | |
|---|---|
| Mr Mike Wilson | Cadeirydd y Pwyllgor Safonau, Cyngor Sir Ynys Môn |

**Ymddiheuriadau:-**

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd Alun Mummery | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Y Cynghorydd Hywel Eifion Jones | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Y Cynghorydd Ken Hughes | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Marilyn Hughes | Cyngor Tref Amlwch |
| Lindsey Campbell | Medrwn Môn |

**1. Cadarnhau'r Cofnodion**

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Ionawr 2015 yn gywir.

**Materion yn Codi**
**Cyngor Tref Biwmares**

Gan gyfeirio at gyfleoedd i ailgylchu a chreu incwm, byddai'r Cyngor Tref yn dymuno i'r Cyngor Sir drefnu bod mwy o finiau yn y dref i annog pobl i ailgylchu.

**Gweithred:**
Y Cyngor Sir i ddarparu gwybodaeth i'r Cyngor Tref ar finiau ailgylchu a'r ddarpariaeth o finiau yn gyffredinol yn y dref.

**2. Rhagolygon y Gyllideb**

Rhoddodd Arweinydd y Cyngor drosolwg o'r heriau ariannol sy'n wynebu'r Cyngor wrth iddo osod y gyllideb ar gyfer 2016/17 a chyfeiriodd at y cyd-destun cenedlaethol yn yr ystyr bod y gymuned yn rhan o ddylunio gwasanaethau, trefniadau trosglwyddo asedau a pherchnogaeth y gymuned. Amlinellodd hefyd egwyddorion strategaeth effeithlonrwydd y Cyngor a chyd-destun y Gyllideb Gyfalaf a Refeniw. Cyfeiriwyd wedyn hefyd at y fframwaith ar gyfer gwneud y gyllideb a'r amserlen ymgynghori arfaethedig cyn i'r Cyngor ystyried mabwysiadu cynigion terfynol y gyllideb ar 24 Chwefror 2016. Cynlluniwyd y byddai ymgynghori'n digwydd gyda chydranddeiliaid yn ystod mis Tachwedd a Rhagfyr 2015. I gloi, cyfeiriodd yr Arweinydd at yr angen i'r grŵp cydranddeiliaid Cynghorau Tref a Chymuned gyfarfod yn yr hydref i drafod y pwnc o reoli gwasanaethau mewn cymunedau. Cytunwyd y gellid cylchredeg copi o'r cyflwyniad i'r holl Gynghorau Tref a Chymuned.

**3. Lleisiau Lleol – Ymgysylltu**

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Cymunedau at y cynnydd hyd yma mewn perthynas â threfniadau ymgysylltu lleol ynghylch anghenion trigolion yn ardal Seiriol a chyfeiriodd at yr amrywiol themâu a adnabuwyd er mwyn defnyddio arian yn effeithiol. Roedd y gwaith a wnaed hyd yma yn darparu model defnyddiol ac effeithiol i sefydlu anghenion y gymuned, cynllunio ar y cyd a chyflawni ar y cyd rhwng y Gymuned, sefydliadau statudol a'r sector gwirfoddol.

Adroddodd y Cyfarwyddwr Cymunedau wedyn y byddai'r model a ddatblygir yn ardal Seiriol yn cael ei gyflwyno yn ardal Llangefni ac y byddai gwaith pellach yn cael ei wneud ynglŷn ag anghenion y rhaglen Ynys Ynni sy'n canolbwyntio ar ardaloedd Amlwch a Chaergybi.

**Sylwadau:**

Cyngor Cymuned Y Fali – Roedd anghenion ardaloedd gwledig yn bwysig ac mae sgôp i Gynghorau Cymuned gronni adnoddau gyda'i gilydd.
Cyngor Tref Biwmares – Codwyd y mater o wasanaethau cludiant cyhoeddus mewn perthynas â Haulfre, Llangoed.

Nododd y Cyfarwyddwr Cymunedau bod hwn yn fater a fyddai'n cael ei drafod ymhellach gyda Chynghorau Cymuned yn yr ardal.

## 4. Cynrychiolwyr ar Bwyllgor Safonau'r Cyngor Sir

Rhoddodd Mr Mike Wilson, Cadeirydd Pwyllgor Safonau'r Cyngor Sir, amlinelliad o'r cyd-destun i'r eitem hon gan grynhoi rôl y Pwyllgor Safonau. Eglurodd Mr Wilson y byddai dwy sedd wag ar y Pwyllgor Safonau y byddai angen iddynt gael eu llenwi gan y Cynghorau Tref a Chymuned erbyn mis Rhagfyr 2015. Roeddent eisoes wedi anfon gohebiaeth at y Cynghorau Tref a Chymuned ar 10 Chwefror 2015 yn gofyn am enwebiadau erbyn 9 Tachwedd 2015. Roedd Un Llais Cymru yn cefnogi'r protocol o geisio cael enwebiadau. Byddai'n rhaid cyflwyno'r enwebiadau i'r Cyngor Sir ar 9 Rhagfyr 2015.

Yn codi o'r drafodaeth, adroddodd Cyngor Cymuned Llanfaelog nad oeddent bellach yn perthyn i Un Llais Cymru.

## 5. Fforwm Sgriwtini

Dygwyd sylw'r Cynghorau Tref a Chymuned at y wybodaeth a ganlyn sef:

1. Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith ar gyfer 2015/16 (caiff gwybodaeth ei diweddaru'n fisol i'r Cynghorau Tref a Chymuned)
2. Blaenraglenni Waith y ddau bwyllgor sgriwtini ar gyfer 2015/16

Rhoddodd y Rheolwr Sgriwtini Dros Dro a'r Swyddog Sgriwtini gyflwyniad ar y cyd ar swyddogaeth sgriwtini yr awdurdod lleol. Roedd y cyflwyniad yn cynnwys gwybodaeth ar swyddogaethau allweddol y ddau Bwyllgor Sgriwtini, beth allai sgriwtini ei gyflawni, sut mae eitemau'n cael eu hadnabod, negeseuon allweddol o'r Adroddiad Sgriwtini Blynyddol 2014/2015 a'u Blaenraglenni Gwaith yn ystod 2015/2016.

Yn dilyn y cyflwyniad, amlinellodd Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol bwysigrwydd ymgysylltu gyda chydranddeiliaid. Fel rhan hollbwysig o'r broses sgriwtini, cyfeiriwyd at y ffaith fod Rhaglenni Gwaith y ddau Bwyllgor Sgriwtini ar gael ar wefan y Cyngor a bod croeso i aelodau o'r cyhoedd, ynghyd â chydranddeiliaid sydd â diddordeb, fynychu'r cyfarfodydd ar yr amod nad yw'r eitem yn gyfrinachol ei natur. Pwysleisiodd y ddau Aelod pa mor bwysig yw gwaith y Pwyllgorau Sgriwtini yn y Cyngor a bod y ddau bwyllgor yn chwarae rôl greiddiol wrth sicrhau atebolrwydd a llywodraethu corfforaethol da yn yr Awdurdod. Darparwyd gwybodaeth ynghylch sut i gysylltu â'r Uned Sgriwtini a gwnaed ymrwymiad i fynychu'r Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned ddwywaith y flwyddyn i roi diweddariadau ar y swyddogaeth sgriwtini.

Cytunwyd y byddai copi o'r cyflwyniad yn cael ei gylchredeg i'r holl Gynghorau Tref a Chymuned.

## 6. UFA

### Gwefannau Cynghorau Tref a Chymuned

Adroddodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd fod tri Chyngor Cymuned wedi cadarnhau nad oeddent yn dymuno derbyn y cynnig o arian grant, sef Porthaethwy, Bodorgan a Llaneugrad.